

Ymgynghoriad ar Gynllun Iaith Gymraeg DECC

Crynodeb o'r ymatebion

Mawrth 2012

Ymgynghoriad ar Gynllun Iaith Gymraeg DECC: Crynodeb o'r Ymatebion

Cyflwyniad

Mae Cynllun Iaith Gymraeg DECC – a baratowyd yn unol â chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg – yn disgrifio sut y bydd yr Adran yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, i'r fath raddau ag y bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Lansiodd DECC ymgynghoriad wyth wythnos o hyd i gasglu safbwyntiau ar y cynllun arfaethedig rhwng 28 Mawrth 2011 a 23 Mai 2011. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau o ran a yw'r cynllun arfaethedig yn hawdd i'w ddeall, a yw'n diwallu anghenion pobl sy'n siarad Cymraeg ac am sylwadau cyffredinol ar y Cynllun ei hun.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 23 Mai 2011. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y ffordd y dylanwadodd y broses ymgynghori ar ddatblygiad pellach y polisi oedd yn destun i'r ymgynghoriad.

Cyflawni'r ymarfer ymgynghori

Rhyddhawyd datganiad i'r wasg a chrëwyd tudalen benodedig ar wefan DECC wrth lansio'r ymarfer ymgynghori. Cafodd ei hysbysebu hefyd trwy Fwletin y Rhanddeiliaid. Cafodd sefydliadau a'r cyhoedd wahoddiad i ddarllen cynllun drafft DECC a chyfrannu eu hadborth trwy e-bost a/neu trwy'r post.

Pan gaeodd yr ymgynghoriad ar 23 Mai 2011, roedd DECC wedi cael dau ymateb gan un unigolyn.

Crynodeb o'r ymatebion ac ymatebion y Llywodraeth i'r rhain

Ystyriwyd yr holl sylwadau a ddaeth i law. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r pwyntiau a godwyd trwy'r ymgynghoriad ac yn rhoi ymateb yr Adran i bob un:

Y Pwyntiau a Godwyd	Ymateb DECC
<p>Cynnwys cyfeiriad at Gytundeb Aarhaus.</p>	<p>Mae Cytundeb Aarhaus yn un o'r darnau niferus o ddeddfwriaeth sy'n pennu ein rhwymedigaethau mewn perthynas â hysbysu'r cyhoedd am brojectau a allai gael effaith ar yr amgylchedd, ac ymgynghori â nhw.</p> <p>Ni fyddai rhestru rhai o'r darnau o ddeddfwriaeth hyn, neu bob un ohonynt, yng nghynllun DECC yn ychwanegu dim at eglurder y cynllun yn ein barn ni. Mae cynllun DECC yn disgrifio ein polisi o ran sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg, a byddai hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth amgylcheddol sy'n dod o fewn cwmpas cytundeb Aarhaus.</p>
<p>Sicrhau bod cyhoeddiadau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi'r un pryd â'r rhai Saesneg.</p>	<p>Mae cynllun DECC yn datgan "lle byddwn yn cynhyrchu deunyddiau ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, ein harfer safonol fydd cyhoeddi a dosbarthu'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd a byddant yn gyffelyb". Gweler pwynt 33.</p>
<p>Dylid cyhoeddi unrhyw ddogfen neu gyhoeddiad sy'n berthnasol i bobl Cymru yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd.</p>	<p>Rydyn ni o'r farn bod cynllun DECC yn darparu ar gyfer yr hyn sy'n briodol ac yn rhesymol o ymarferol o dan yr amgylchiadau. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer dull cymedrol o fynd ati gyda golwg ar berthnasedd y ddogfen neu'r cyhoeddiad a'r costau a'r amser o dan sylw.</p>

Y camau nesaf

Rhoi'r cynllun gweithredu a bennwyd yn Adran A o Gynllun DECC ar waith.

Department of Energy & Climate Change
3 Whitehall Place
London SW1A 2AW
www.decc.gov.uk